Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cymru

Ymateb i Ymgynghoriadau
Sylwadau gan National Energy Action Cymru

http://new.wales.gov.uk/desh/publications/climatechange/ecologicalfootprint/report.pdf?lang=cy
neu
http://tinyurl.com/6rdz7r

Ôl Troed Ecolegol Cymru

Sylwadau gan Gweithredu Ynni Cenedlaethol Cymru

Mae Gweithredu Ynni Cenedlaethol Cymru (NEA Cymru) yn croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar y Map Llwybr Ynni Adnewyddol arfaethedig ar gyfer Cymru. Mae NEA Cymru yn rhan o'r Elusen Gweithredu ynni Cenedlaethol (NEA) sydd yn gweithredu yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae NEA wedi bod yn cymryd rhan gweithredol yn yr ymgyrch i gael gwared o dlodi tanwydd yn y DU am dros 25 mlynedd. Rydym yn cefnogi datblygiad a hyrwyddiad gwasanaethau effeithlonrwydd ynni i fynd i'r afael â phroblemau gwresogi ac insiwleiddio teuluoedd ar incwm isel. Rydym yn cefnogi rhwydwaith o wybodaeth electronig o dros 800 o unigolion a chyrff sydd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru yn ogystal â hwyluso a datblygu Fforymau Tlodi Tanwydd yng Ngogledd a De Cymru. Rydym yn aelodau gweithredol o Grŵp Ymgynghorol Tlodi Tanwydd y Gweinidog.

Mae Gweithredu Ynni Cenedlaethol Cymru (NEA Cymru) yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar yr argymhellion sydd yn Adroddiad Prifysgol Efrog. Ar y cyfan rydym yn cefnogi byrdwn yr adroddiad, yn enwedig y ffocws ar wella effeithlonrwydd ynni y stoc tai. Mae ein prif sylwadau yn seiliedig ar ein barn, tra bod newid hinsawdd yn amlwg yn gyrru buddsoddiad cyhoeddus mewn gwell effeithlonrwydd ynni, mae cyfiawnder cymdeithasol yn hawlio y dylid targedu'r adnoddau cyhoeddus prin tuag at y tlotaf a'r mwyaf bregus fel blaenoriaeth hyd nes y ceir gwared o dlodi tanwydd.

Daw'r adroddiad hwn ar adeg pan fo'r nifer o deuluoedd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd wedi dyblu bron ac os bydd prisiau yn codi fel y rhagwelir dros y flwyddyn nesaf mae'n debygol i bydd y niferoedd yn cynyddu ymhellach. Mae NEA Cymru yn anghytuno'n gryf gyda'r datganiad yn yr adroddiad nad oes anogaeth pris ar deuluoedd i leihau'r defnydd o ynni. Mae llawer gormod o deuluoedd sydd yn cyfyngu ar eu defnydd o ynni i lefelau peryglus oherwydd y gost – hyd yn oed cyn y cynnydd diweddar mewn prisiau – sydd yn golygu nad ydynt yn cadw'n

ddigon cynnes yn ystod y gaeaf ac yn rhoi eu hiechyd mewn perygl. Er bod yr adroddiad yn dweud nad yw cynnydd mewn prisiau yn ddewis polisi mae'n hanfodol bod unrhyw drafodaeth ac ystyriaeth o brisiau fel gyrrwr ymddygiad effeithlonrwydd ynni yn cymryd i ystyriaeth yn llawn amgylchiadau'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd yn ogystal â'r defnyddiwr ynni 'cyffredinol'.

Mae NEA yn croesawu'r cynnig i ymestyn HEES. Ond mae angen meddwl am hyn yn ofalus. Rydym wedi dychryn bod yr adroddiad fel pe bai'n ystyried HEES fel rhaglen lleihau carbon a thlodi tanwydd yn cael ei ostwng i 'un o'r materion eraill' y gall fynd i'r afael ag ef. Mae NEA Cymru yn credu bod rhaid i HEES, yn gyntaf ac yn flaenaf, fod yn raglen tlodi tanwydd sydd yn cefnogi gweithredu ar newid hinsawdd. Er bod hyn yn ymddangos yn semantig mae iddo oblygiadau ymarferol. Dydy nifer o fuddiolwyr HEES ddim mewn tlodi tanwydd a gwelwn hyn fel problem sylweddol sydd angen ei drafod. Ond, os yw HEES yn cael ei weld fel rhaglen lleihau carbon yna mae ei amcan wedi'i ddiwallu os yw'r buddiolwyr mewn tlodi tanwydd ai peidio. Mae perygl yma i wanhau yn sylweddol yr angen i'r cynllun sicrhau ei fod yn ymestyn allan i'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Mae NEA Cymru yn credu y dylai unrhyw estyniad o'r cynllun gynnwys gwell targedu a chyfeirio i deuluoedd sydd yn gymwys ac sydd mewn tlodi tanwydd. A hyd nes y ceir gwared o dlodi tanwydd dylai unrhyw estyniad o'r meini prawf cymhwyso fod ar gyfer y teuluoedd hynny sydd mewn tlodi tanwydd yn unig nad ydynt ar hyn o bryd yn gymwys i elwa oddi wrth HEES.

Un ffordd o ymestyn HEES a gwneud y mwyaf o adnoddau yw integreiddio HEES o fewn ymagwedd ardal, rhywbeth yn debyg i Barthau Cynnes yn Lloegr ac ymagwedd Cymru Gynnes yng Nghymru. Mae ymagweddau ardal wedi llwyddo i integreiddio mecanweithiau cyllido i ddarparu 'rhywbeth ar gyfer pawb' ar draws yr holl sectorau tai tra'n sicrhau gallu sylweddol o gronfeydd sydd eisoes yn bodoli ac rydym yn argymell bod y Cynulliad yn ystyried sut y gallai ymagwedd o'r fath helpu i gyflwyno Un Cymru-Un Blaned i bawb. Mae angen i hyn gynnwys integreiddio pob cynllun grant a chyflwyno a byddai angen ystyried nid yn unig y cymorth a ddarperir gan HEES ond hefyd o dan CERT. Mae NEA Cymru yn amcangyfrif y dylai'r gwariant o dan CERT yng Nghymru o dan y Grŵp Blaenoriaeth yn unig fod tua £20 miliwn y flwyddyn. Gallai ymagwedd ardal o'r fath gynnig rhywbeth i bawb fel bod teuluoedd mewn tlodi tanwydd nad ydynt yn diwallu'r meini prawf cymhwyso HEES yn dal i allu elwa oddi wrth fesurau o dan CERT ac o ddisgowntiau eraill.